

Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eryri a'r Cyffiniau 2005




Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Yn Ardaloedd Thomas Glyn Watkin

DYSGY Y CYFRIFATH

Yn y Gymnirai gyfocs

- Y CYFLEOEDD A'R PERYGLON





Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Yr Athro Thomas Glyn Watkin

Athro a Phennaeth Adran y Gyfraith, Prifysgol Cymru , Bangor.

Ganed y Parchedig Athro Thomas Glyn Watkin ym mhentref Cwmparc yn y Rhondda ym 1952. Derbyniodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Sirol y Rhondda i Fechgyn yn y Porth, cyn astudio'r Gyfraith yng Ngholeg Penfro, Rhydychen, llêr oedd yn Sgolor Oades a Stafford Scholar (1971-1974). Enillodd raddau BA (1974), BCL (1975) ac MA (1977) o Brifysgol Rhydychen, a'i alw i'r bar gan y Deml Ganol (1976). O 1975 tan 2004, bu'n ddarlithydd, uwch-ddarlithydd, darllenydd ac athro yn Ysgol y Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd, yn ogystal â gweithredu fel Cynorthwyrwr Cyfreithiol i Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru o 1981 tan 1998. Fe'i penodwyd yn Athro cyntaf y Gyfraith ym Mangor yn 2004.

Ymysg ei brifgyhoeddiadau mae The Nature of Law (1980), The Italian Legal Tradition (1998) ac An Historical Introduction to Modern Civil Law (1999), ac, fel golygydd, Legal Record and Historical Reality (1989), The Europeanization of Law (1997), Legal Wales: Its Past; Its Future (2001), The Trial of Dic Penderyn and Other Essays (2003) ac Y Cyfraniad Cymreig (2005). Cyhoeddir ei lyfr nesaf, Wales: An Introduction to its Legal History, yn Hydref 2005. Mae'n adnabyddus yn bennaf am ei waith ar hanes y gyfraith a chyfraith sifil. Mae'r Athro Watkin yn aelod o gyngor y Selden Society, yn Ysgrifennydd a Thrysorydd Cymdeithas Hanes y Gyfraith yng Nghymru ac yn aelod o fwrdd golygyddol y Journal of Legal History. Cafodd ei ethol i Academi Cyfreithwyr Preifat Milan a Pavia yn 2002, ac y mae'n offeiriad ordeiniedig yn yr Eglwys yng Nghymru.

DYSG Y GYFRAITH YN Y GYMRU GYFOES Cyfleoedd a Pheryglon

Thomas Glyn Watkin¹

Athro a Phennaeth Adran y Gyfraith, Prifysgol Cymru, Bangor.

Y mae dysg a'r gyfraith yn cyd-fynd. Y mae'r gyfraith yn broffesiwn dysgedig. Y mae cyfreithiwr yn cyfeirio at gyfreithiwr arall yn y llys fel 'fy nghyfaill dysgedig'. Yn Nhŷ'r Cyffredin, cyfeirir at aelod anrhydeddus sydd hefyd yn gyfreithiwr fel 'yr aelod anrhydeddus a dysgedig', gan dderbyn y fantais o un amheuaeth o leiaf.

Gadewch i mi ddechrau drwy ddweud cymaint o faint a phleser oedd hi i mi dderbyn gwahoddiad Cymdeithas Cyfreithwyr Cymru i draddodi ei darlith flynyddol yma yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Y mae'n bleser arbennig oherwydd cynhelir yr Eisteddfod eleni yn y Faenol, ger Bangor, lle'r wyf yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cael y cyfrifoldeb a'r mwynhad o sefydlu ysgol gyfraith ddiweddaraf Cymru. Pleser yw adrodd fod blwyddyn gyntaf yr ysgol newydd wedi bod yn un hapus a llwyddiannus. Cofrestrodd tua hanner cant o fyfyrwyr ar gyrsiau newydd y flwyddyn gyntaf, ac yr oedd yn arbennig o dda darganfod bod dros draean ohonynt yn Gymraeg eu hiaith, a dewisodd un ar ddeg ohonynt gael eu tiwtorialau ym mhynciau'r Gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg. Fe y cawn, mae myfyrwyr o'r fath yn ateb gweddïau'r genedl.

Sefydlu'r adran newydd ym Mangor yw cefndir fy narlith y prynhawn yma. Y mae'r cyfle godidog a roddwyd i mi gan Brifysgol Bangor yn golygu fy mod wedi mwynhau'r cyfle o ystyried pa fath o addysg gyfreithiol ddylai Ysgol Gyfraith yng Nghymru ddarparu ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, a hefyd pa fath o ymchwil cyfreithiol ac ysgolheictod cyfreithiol ddylai academyddion eu meithrin y dyddiau hyn. Gan ddewis fel teitl, *Dysg y Gyfraith*, yn hytrach nag Addysg Gyfreithiol, neu Ysgolheictod Cyfreithiol neu Ymchwil yn y Gyfraith, fy mwriad yw cofleidio nid yn unig un, ond pob un, o'r elfennau hynny sydd yn gwneud y Gyfraith yn weithgaredd dysgedig.

Ychydig ar ôl i mi gael fy mhenodi i gadair y gyfraith ym Mangor, yr oeddwn yn teithio o Gaerdydd i Fangor ar gyfer cyfarfod i ddilysu'r graddau newydd yn y Gyfraith. Y mae'n well gennyf deithio ar y trên nag mewn car, ac y mae hynny'n golygu tacsï yn ôl ac ymlaen rhwng y tŷ a'r orsaf yng Nghaerdydd. Yn awr, er nad yw gyrrwyr tacsï yng Nghaerdydd yn gyrru fel rhai Efrog Newydd, y maent yn siarad llawn cymaint. Digwyddodd y sgysiau anochel ar y ffordd i'r orsaf ac yn ôl. Ar y ffordd i'r orsaf, o'r diwedd gofynnodd y gyrrwr y cwestiwn anochel: "Beth yw eich gwaith, felly?". Bob amser, yr wyf yn ateb fy mod yn dysgu yn y Brifysgol. "Beth ydych chi'n ei ddysgu?" "Y Gyfraith." "O!" Saib fer. "Beth yw eich barn am y Cynulliad, felly? Oes digon o bwerau ganddo, neu a ddylai gael rhagor?" Cwestiwn anochel efallai yn y

¹Y mae'r awdur yn ddiolchgar i Ddr. Enid Pierce Roberts am ei sylwadau ar fersiwn cynharach o'r ddarlith. Yr awdur yn unig sydd yn gyfrifol am unrhyw ddiffygion sydd ar ôl.

gwanwyn a welodd gyhoeddiad Adroddiad y Comisiwn Richard. Fodd bynnag, yr oedd y cwestiwn yn un diddorol iawn i mi oherwydd, gan ei ystyried yn ddiweddarach yn y dydd, tarodd fi nad oedd sôn am y Gyfraith i'r gyrrwr taci hwn yng Nghaerdydd yn golygu statud a wnaethpwyd gan Senedd San Steffan neu ryw achos pwysig gerbron llysoedd barn yn Llundain, ond yn hytrach am Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i bwerau, neu eu diffyg.

Yr oedd y siwrne ar y ffordd adref yr un mor ragweladwy... a'r un mor ddiddorol. "Beth yw eich gwaith, felly?" "Yr wyf yn dysgu yn y Brifysgol." "Ie. Beth ydych chi'n ddysgu?" "Y Gyfraith." "Yn wir! Wel, beth yw eich barn chi am y rhyfel yn Irac? A yw hi'n gyfreithlon neu beidio?" Nid oedd cyfle i ateb y tro yma, oherwydd dechreuodd y gyrrwr roi ei farn ef, ond cefais fy nharo unwaith eto nad oedd sôn am y gyfraith ddim yn golygu gweithredoedd Senedd San Steffan neu waith y Llysoedd Barn Brenhinol yn y Strand, ond lle'r gyfraith yn y cyd-destun rhyngwladol - cyfreithlondeb neu anghyfreithlondeb gweithredoedd gwledydd y byd.

Beth fuasai barn y gyrrwr taci yma yng Nghaerdydd os atebwyd eu cwestiynau gennyf i gan ddweud: "Mae'n ddrwg gennyf, Cyfraith Gyffredin Cymru a Lloegr yw fy niddordeb, nid cyfraith eilaidd cynulliad lleol", neu: "Mae'n ddrwg gennyf, Cyfraith Cymru a Lloegr yw fy niddordeb i nid cyfraith ryngwladol." A fyddent yn fy nghyfrif fel rhywun dysgedig, aelod o broffesiwn dysgedig, gan sylweddoli bod fy syniad i o gyfraith yn fwy cul, mwy cyfyng na'u syniad hwy? Y mae gwers yma, gwers sy'n cadarnhau'r strategaeth yr oeddwn yn ei datblygu ar gyfer graddau'r gyfraith ym Mangor. Er mwyn i gyfreithiwr yng Nghymru fod yn ddysgedig ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, mae'n rhaid iddo fod yn ddysgedig nid yn unig yng nghyfraith Cymru a Lloegr, ond hefyd yn y gyfraith sydd yn berthnasol bellach i Gymru yn unig, a hefyd yn y gyfraith sydd mewn grym yn y cyd-destun rhyngwladol yn nhermau'r Undeb Ewropeaidd ac awdurdodaeth y Cenedloedd Unedig. Y mae'n rhaid i ddysg cyfreithiwr sydd yn wir ddysgedig fod, nid yn unig yn ddwfn, ond yn eang hefyd, ac y mae'r cyhoedd yn dechrau disgwyl hyn. Tri chwarter canrif yn ôl, aeth fy nhad yn fyfyrwr i Goleg Prifysgol, Southampton, fel y gelwid ef ar y pryd. Yno, dysgwyd llenyddiaeth Saesneg iddo gan yr Athro V. da Sola Pinto, athro a edmygwyd gan fy nhad am ei addysg, ei ysgolheictod a'i bersonoliaeth. Fel canlyniad, pan oeddwn i yn fyfyrwr yn y saithdegau, pan welais lyfr gan yr Athro Sola Pinto, fe'i prynais - a'i ddarllen. Teitl y llyfr oedd *Crisis in English Poetry: 1880-1940*. Dadl yr Athro Pinto yn y llyfr hwn oedd bod safon barddoniaeth Saesneg yn y cyfnod hwnnw wedi dioddef argyfwng oherwydd bod y beirdd yn eu gwaith naill ai yn mentro 'morio allan' gan archwilio syniadau am y byd neu 'morio i mewn' gan archwilio eu hunain. Ychydig yn unig oedd yn mentro'r ddwy daith yn null beirdd cenedlaethau cynt. Y mae'r gyfraith yn wynebu'r un fath o her heddiw. Y mae eisiau cyfreithwyr i 'forio i mewn' er mwyn darganfod y cyfoeth mae cyfundrefn gyfreithiol newydd Cymru yn ei gynnig, ond ar yr un pryd i 'forio allan' i ddarganfod rôl y gyfraith yn Ewrop ac o amgylch y byd. Y mae'r gyfraith bellach yn lleol, gwladol ac yn fyd-eang - a rhaid i ddysg cyfreithiwr adlewyrchu hynny. Nid yw'n rhyfedd efallai bod cyfreithwyr Rhufain hynafol yn sylweddoli'r ffaith ac yn ei

hadlewyrchu yn eu dysgeidiaeth fod rhai cyfreithiau yn neilltuol i un bobl a rhai yn gyffredin i holl ddynolryw, y gwahaniaeth rhwng yr *ius civile* a'r *ius gentium*.

Y mae cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr weithiau yn barod i dderbyn yr her yma, ond weithiau ddim. Yr wyf bob amser yn synnu yma yn y Deyrnas Unedig nad ydym yn gwybod mwy am gyfundrefnau cyfreithiol ein gilydd. Nid wyf yn gwybod am yr un ysgol gyfraith yng Nghymru na Lloegr sydd yn dysgu cyfraith yr Alban. Yn yr un modd, nid wyf yn gwybod am yr un ysgol gyfraith yn yr Alban nad yw yn dysgu cyfraith Cymru a Lloegr. Y mae'r agwedd gul yma wedi effeithio hefyd ar y modd mae rhai awduron llyfrau ar gyfraith gyhoeddus wedi ateb her datganoli. Ychydig flynyddoedd yn ôl, derbyniais gopiâu o ddau werslyfr, yn rhad ac am ddim oddi wrth y cyhoeddwyr. Yn un, llyfr o chwe chant o dudalennau, dim ond chwe thudalen oedd yn delio gyda datganoli yng Nghymru a'r Alban. Yr Alban a gafodd y gyfran fwyaf o'r sylw. Yn y llall, gwaith yr un mor swmpus, cafodd datganoli ei drin mewn troednodyn yn unig, a hynny dim ond i esbonio paham nad oedd yr awdur yn mynd i ymddrin â'i ganlyniadau.

Y mae'r methiant yma i gysylltu ag amrywiaeth y cyfundrefnau cyfreithiol ar ein cerrig drws ein hunain yn y Deyrnas Unedig yn ymestyn hefyd, ar y cyfan, i'n hagwedd ni ynglŷn â'r gyfraith yn ei chyd-destun rhyngwladol. Nid yw Cyfraith Ryngwladol Gyhoeddus, sydd yn delio â rheolaeth gyfreithiol gwledydd, neu Gyfraith Ryngwladol Breifat, sydd yn ystyried perthnasau cyfreithiol rhyngwladol ynglŷn ag unigolion preifat, yn cael eu hystyried yn ddigon pwysig i fod yn bynciau sylfaenol yng nghwricwlwm y gyfraith yng Nghymru a Lloegr, er bod nifer enfawr o bobl heddiw yn cytundebu'n rheolaidd gyda chwmmiâu sydd yn masnachu o dramor a mwy a mwy o bobl yn berchen ar eiddo mewn gwledydd eraill. Ar gyfandir Ewrop, ar y llaw arall, y mae'r Gyfraith Ryngwladol Gyhoeddus a Phreifat fel rheol yn bynciau angenrheidiol er mwyn graddio yn y Gyfraith.

Nid yw hyn, fodd bynnag, wedi bod yn wir am ymateb cyfreithwyr i Gyfraith Undeb Ewropeaidd. Neidiodd cyfreithwyr academiaidd yn enwedig at y cyfleoedd a gynnigwyd gan fynediad Prydain i'r Farchnad Gyffredin ynglŷn â datblygu cysiau newydd ac ysgrifennu deunydd cyfreithiol - gwerslyfrau, erthyglau dysgedig a monograffau ysgolheigaidd - i wneud dysgu'r fath gysiau yn bosibl. O 1972 ymlaen, llifodd ffrwd i bob pwrpas o lenyddiaeth o ysgrifbinnau neu yn ddiweddarach brosesyddion geiriau cyfreithwyr academiaidd Prydain. Fodd bynnag, er y mae'n debyg bod cyfreithwyr academiaidd wedi derbyn y neges yn gynnar iawn bod Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd yn bwysig i ddysg y gyfraith yng Nghymru a Lloegr, cymerodd chwarter canrif i'r cyrff proffesiynol gydnabod y ffaith drwy wneud Cyfraith Ewrop yn bwnc sylfaenol yn y gyfraith ar gyfer derbyn Gradd Gymhwysol yn y Gyfraith. Y mae'n union fel pe bai angen i'r genhedlaeth gyntaf o gyfreithwyr a gymhwysodd ar ôl i Brydain gael mynediad i'r Gymuned Ewropeaidd gyrraedd swyddi uchel yn y proffesiynau cyn i Gyfraith Ewrop gael ei statws haeddiannol yng ngolwg y gymuned gyfreithiol.

Fodd bynnag, er bod cyfreithwyr academiaidd Prydain wedi bod yn barod i ymgymryd ag astudio cyfraith y Gymuned Ewropeaidd, er mawr syndod nid oedd yr un peth yn wir ynglŷn ag astudio cyfreithiau a chyfundrefnau cyfreithiol mewnol yr aelod

wladwriaethau. Y mae hyn yn syndod oherwydd yr oedd mwy neu lai yn anochel fod y cyfleoedd a gynigiwyd gan fynediad Prydain i'r Farchnad Gyffredin yn mynd i ddiweddu gyda llawer mwy o Brydeinwyr yn masnachu gyda phobl o'r aelod wladwriaethau eraill, yn byw ac yn gweithio yn y gwledydd eraill, yn prynu ac yn berchen ar eiddo yno ac eisiau defnyddio cyfundrefnau cyfreithiol y gwledydd hynny o bryd i'w gilydd er mwyn cael iawndal am gamweddau a ddiodefasant. Bu rhai, wrth gwrs, yn wynebu cyhuddiadau troseddol yn y gwledydd hynny hefyd. Nid oes llawer o amheuaeth mai un o'r problemau a wynebai cyfreithwyr academiaidd a myfyrwyr oedd eisiau astudio cyfreithiau mewnol y gwledydd eraill oedd y ffaith nad oedd ffynonellau'r gyfraith yn y gwledydd hyn, yn wahanol i ffynonellau Cyfraith Ewrop ar ôl i Brydain ymuno, ar gael yn Saesneg. Er mwyn astudio cyfraith gwledydd fel Ffrainc, Yr Almaen a'r Eidal, yr oedd eisiau medru Ffrangeg, Almaeneg neu Eidaleg. Yma, yr ydym yn taro yn erbyn rhwystr difrifol i ddatblygu dimensiwn Ewropeaidd i addysg gyfreithiol yng Nghymru a Lloegr - dim digon o ymrwymiad i astudio ieithoedd. Nid yw'n golygu llawer o drafferth i gyfreithwyr Saesneg eu hiaith wrth droi at gyfreithiau a chyfundrefnau cyfreithiol yr Unol Daleithiau neu'r Gymanwlad er mwyn cymharu, yn rhannol o ganlyniad i etifeddiaeth gyfreithiol gyffredin gwledydd y gyfraith gyffredin, ond hefyd yn rhannol am nad y gyfraith gyffredin yn unig a ddilynodd y faner Brydeinig ond Saesneg fel iaith. I'r un graddau, nid y ffaith bod cyfraith gwledydd cyfandir Ewrop yn deillio o draddodiad cyfreithiol gwahanol, cyfraith sifil Rhufain, sydd yn troi cyfreithwyr Saesneg oddi wrth astudio eu cyfreithiau - oherwydd yn eironig hyd at genhedlaeth yn ôl buasai bron holl gyfreithwyr Cymru a Lloegr wedi dysgu rhywfaint o Gyfraith Rhufain fel rhan angenrheidiol o'u haddysg gyfreithiol; yn fy marn i, y rheswm mwyaf yw nad ydynt yn medru darllen ieithoedd y gwledydd hynny. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, yr wyf wedi darllen mewn atodiad cyfreithiol yn un o'n papurau dyddiol mwyaf parchus, sylwadau gan uwchbartner mewn cwmni blaenllaw o gyfreithwyr yn Llundain yn dweud bod ieithoedd yn bwysig i gyfreithiwr - ond nid mor bwysig â hynny. Paham nad ydynt felly? Oherwydd, yn ei farn ef - ac ym marn llawer eraill - Saesneg yw iaith ryngwladol y gyfraith. Y mae pobl eraill yn siarad Saesneg, felly beth yw'r angen i ni ddysgu Ffrangeg, Almaeneg neu Sbaeneg. I ni yng Nghymru, dylai fod yr ateb yn amlwg. Beth fydd yn digwydd pan fydd y cyfreithwyr uniaith Saesneg yma yn trafod materion gyda'u cymheiriaid ym Marseilles, Munich neu Madrid? Rhyw bryd neu'i gilydd, bydd y partiion eraill yn dewis trafod pethau ymysg ei gilydd, ac wedyn, fel yr ydym yn clywed mor aml yng Nghymru, byddent yn cael eu cyhuddo o siarad eu mamiaith er mwyn i'r Saeson uniaith fethu'u deall. Y mae yn hollol anghredadwy mewn cyd-destun mor bwysig â thrafodaeth gyfreithiol neu, yn waeth, achos gerbron llys, bod cyfreithwyr Saesneg yn dewis gweithio mewn sefyllfa lle mae'r parti arall yn gallu eu deall hwy ond nad ydynt hwy yn gallu deall y parti arall. Nid sefyllfa gyfartal mo hon, ac ni allwn ond dyfalu, wrth i gleientiaid ddod i sylweddoli hyn y bydd cyfreithwyr y wlad yma yn colli gwaith yn y maes rhyngwladol i gyfreithwyr o wledydd eraill gyda chymwysterau ieithyddol gwell ar gyfer ymarfer yn y cyswllt rhyngwladol.

Wrth ymateb i'r her o ymarfer y gyfraith yng nghyd-destun amlicieithog rhyngwladol, y mae gan gyfreithwyr o gymdeithasau amlicieithog neu ddwyieithog fantais

glir. Y mae ganddynt nid yn unig y sgiliau ond yr agwedd ddeallusol sydd yn eu galluogi i lwyddo yn y gymuned gydwladol. Nid yw felly'n syndod bod ysgolion cyfraith Cymru wedi bod ar y blaen yn datblygu cyrsiau gradd sy'n caniatáu i'r gyfraith gael ei hastudio ar y cyd gydag ail iaith, weithiau ar y cyd gyda chyfraith a chyfundrefn gyfreithiol y wlad dan sylw. Yr wyf fi yn bersonol yn falch iawn fy mod wedi bod yn rhan o'r fath ddatblygiadau bellach mewn dwy o ysgolion cyfraith Cymru, ond ni allwn fod yn fodlon ynglŷn â dyfodol cyrsiau o'r fath, hyd yn oed yng Nghymru, lle mae'r niferoedd ar gyrsiau gradd o'r fath yn disgyn a lle, mewn manau, y mae cyrsiau o'r fath yn cael eu bygwth, gyda rhai ohonynt eisoes wedi cau. Y mae astudio'r gyfraith ar y cyd gydag ieithoedd yn hanfodol yn fy marn i os yw proffesiynau'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn mynd i gadw fyny gyda'u cymheiriaid ar gyfandir Ewrop, ond y mae'r ateb i'r problemau presennol gyda'r bobl sydd yn llunio a chyllido'r cwricwlwm yn ein hysgolion yn hytrach nag yn ein prifysgolion, lle mae canlyniadau esgeuluso astudio ieithoedd ymhlith ein pobl ifanc yn codi braw am y dirywiad terfynol mewn hyfforddi graddedigion mewn ieithoedd modern.

Dyna ddigon am forio allan ynglŷn ag astudiaethau'r Gyfraith a phwysigrwydd ieithoedd. Beth am forio'i mewn? Yr wyf eisoes wedi dweud bod cyfreithiwr sydd wrth ei fodd mewn amgylchedd cyfreithiol dwyieithog yn debyg o fwynhau manteision proffesiynol yn y cyd-destun rhyngwladol lle mae'r gyfraith yn datblygu heddiw, ac felly gall Cymru o leiaf ymlawenhau bod y nifer cynyddol o blant sydd yn derbyn addysg ddwyieithog yn ein hysgolion cynradd a chyfun yn golygu y bydd yna fwy a mwy o gyfreithwyr dwyieithog fel yr â'r ganrif rhagddi. Fodd bynnag, nid yw'r gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad y ddwy iaith yn ddigon ar ei ben ei hun. Y mae Cymru eisieu cyfreithwyr sydd yr un mor alluog i ymarfer eu sgiliau cyfreithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae hynny'n gofyn am fwy na medru siarad y ddwy iaith. Y mae'n gofyn am hyder ar ran yr unigolion eu bod yr un mor effeithiol yn eu gwaith cyfreithiol boed yn gweithio yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Buasai'n hyfdra - na, buasai'n gelwyddog - hawlio bod ysgolion cyfraith Cymru eisoes wedi cyrraedd y nod o gynhyrchu'r fath raddedigion.

Felly, paham? Beth sydd yn ein rhwystro? Y mae nifer o bethau. I ddechrau, nid yw ysgolion cyfraith Cymru yn orlawn o gyfreithwyr sydd yn medru'r Gymraeg, hyd yn oed rhai sydd yn teimlo'n ddigon hyderus i ddysgu drwy'r Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Nid yn unig ymhlith myfyrwyr a graddedigion ein academaïau cyfreithiol y mae angen meithrin yr hyder i weithio yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, os yw'r nifer o gyfreithwyr academaidd sydd yn barod i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn fach mewn unrhyw un o ysgolion cyfraith Cymru, gan eithrio'r sefyllfa bresennol ym Mangor efallai - mae Bangor yn adran newydd gyda nifer bychan o staff ar y foment mewn cymhariaeth â lleoedd eraill - nid yw'r nifer yn y sector cyfan, hynny yw cyfanswm holl gyfreithwyr academaidd Cymru sydd yn medru'r Gymraeg ac yn fodlon dysgu trwy gyfrwng yr iaith, ddim mor fach. Yn wir, y mae'r nifer, er nad yw'n fawr, yn ddigon mawr i ganiatáu i'r holl gwricwlwm craidd, hynny yw'r saith pwnc sylfaenol y mae'r cyrff proffesiynol yn barnu'n angenrheidiol ar gyfer mynediad uniongyrchol i Gwrs Galwedigaethol y Bar a'r Cwrs Ymarfer y Gyfraith, i'w dysgu trwy'r Gymraeg. Bellach,

drwy gyd-ddigwyddiad ffodus, y mae diddordebau'r cyfryw staff yn cynnwys yr holl gysiau craidd felly, pe byddent i gyd yn yr un man, ni fuasai unrhyw anhawster i ddsygu'r holl gwricwlwm craidd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ond nid ydynt i gyd yn yr un man. Y mae rhai yng Nghaerdydd, rhai yn Abertawe. Y mae eraill yn Aberystwyth ac eraill ym Mangor. Mae'n debyg felly fod pob un o ysgolion cyfraith Cymru wedi ei chondemnio i gynnig ond rhan o'r cwricwlwm craidd drwy'r Gymraeg. Neu ai dyna'r sefyllfa? Nid oes amheuaeth nad yw cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ar draws Cymru mor hawdd ag y maent ar draws gwledydd gyda llai o fynyddoedd - ond nid ydynt mor anodd â hynny ac yn bendant nid ydynt yn amhosibl. Yn ystod y flwyddyn academiaidd ddiwethaf, fel enghraifft, y mae dau aelod o staff academiaidd Bangor wedi bod yn gyfrifol am ddsygu cysiau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd, am y rhan fwyaf o'r amser bob wythnos. Y mae hynny wedi caniatáu i ddarpariaeth ddwyieithog barhau yng Nghaerdydd er bod dau athro wedi rhoi'r gorau i hyfrydwch Bae Caerdydd er mwyn blasu pleserau Afon Menai. Y mae'n bosibl. Ceffyl da yw ewyllys - hyd yn oed os yw'r ffordd mor anodd â'r A470 neu mor anuniongyrchol â'r rheilffordd trwy'r Gororau. Yr oedd trydydd athro o Fangor ar gael i gynorthwyo coleg chweched dosbarth yn gynharach yn y flwyddyn pan fgythiodd tostrwydd sydyn barhad cwrs lefel A trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall llawer gael ei gyflawni os oes ewyllys i'w wneud. Y mae gan dduilliau cyfoes o gyfathrebu, drwy ddefnyddio e-bost, y rhyngrwyd a chyswllt fideo, i gyd eu rhan i'w chwarae wrth oresgyn anawsterau sydd wedi cael eu hystyried yn anorchfygol yn llawer rhy hir. Caf fy synnu o hyd gan faint o bobl sydd yn arswydo at y syniad o deithio rhwng gogledd a de Cymru yn wythnosol, a buasai rhai ohonynt yn derbyn heb sioc o gwbl y syniad o deithio'n ddyddiol rhwng de Cymru a Llundain, neu yn wythnosol rhwng Cymru a Brwsel. Hyd nes bod gennym genhedlaeth o raddedigion dwyieithog hyderus yn y Gyfraith, y daw'r genhedlaeth nesaf o gyfreithwyr academiaidd o'u plith, y mae rhaid i'r ffordd ymlaen gynnwys bodlonrwydd athrawon fel unigolion a'r ysgolion cyfraith sydd yn eu cyflogi i rannu'r adnoddau dynol hanfodol hyn. Yn ogystal â bodlonrwydd i ddsygu mewn mwy nag un lle, y mae angen hefyd y bodlonrwydd o ochr awdurdodau'r sefydliadau i dderbyn athrawon cymwys o sefydliadau eraill yng Nghymru. Bellach, os yw strategaeth o'r fath i lwyddo, y mae'n angenrheidiol nad yw'r bobl sydd yn gyfrifol am gyllido Addysg Uwch yng Nghymru yn colli golwg ar y ffaith fod eisiau talu treulïau teithio ac efallai treulïau llety ar gyfer y rhai hynny sydd yn barod i dderbyn yr her o fod yn ysgolheigion crwydrol.

Os oes ateb herfeiddiol felly i'r broblem o recriwtio digon o athrawon yn y tymor byr, nad yn unig nid oes ateb hawdd ond hefyd nid oes ateb parod i'r broblem nesaf - sef pa ddeunydd y mae'r athrawon yma i'w ddefnyddio wrth ddsygu eu myfyrwyr, a ble mae'n bosibl i'r myfyrwyr eu hunain gysylltu â deunydd cyfreithiol yn yr iaith Gymraeg? Ar hyn o bryd, y mae'r myfyrwyr sydd yn dewis derbyn eu haddysg gyfreithiol i gyd, neu yn rhannol, drwy gyfrwng y Gymraeg yn wynebu her ddwbl. Y mae'r gyntaf - dysgu'r Gyfraith - yn gyffredin i'r myfyrwyr Cymraeg a Saesneg, ond i'r Cymry y mae her ychwanegol. Yn ogystal â dysgu'r gyfraith ochr yn ochr â'u cymdogion Saesneg, y mae'n rhaid iddynt addasu eu gwybodaeth er mwyn arddangos eu sgiliau

dwyieithog. Ar ôl mynychu darlithoedd yn Saesneg gyda'r myfyrwyr eraill, ar ôl darllen eu gwerslyfrau, y statudau a'r adroddiadau cyfreithiol yn y llyfrgell, y mae'n rhaid iddynt hwy wedyn baratoi ar gyfer trafod, cymhwyso ac ysgrifennu am eu pwnc mewn iaith wahanol i'r iaith a ddefnyddiwyd ganddynt i ddysgu'r gyfraith a, bellach, un wahanol i'r un y lluniwyd y gyfraith ynddi. Nid yw'n rhyfedd fod rhai myfyrwyr Cymraeg yn ystyried hyn yn dipyn o faich ychwanegol, ac y maent yn iawn. I rai, mae'r pryder fod y baich ychwanegol hwn o bosib yn mynd i effeithio ar safon eu gwaith yn diweddu yn eu penderfyniad i astudio yn gyfan gwbl yn y Saesneg. Nid oes amheuaeth nad yw diffyg llenyddiaeth gyfreithiol o safon yn y Gymraeg yn anghymhelliaid i fyfyrwyr Cymraeg ddewis cwrs Cymraeg yn y Gyfraith. Yn eironig, y mae'r rheini sydd yn dewis gwneud yn rhagori, efallai nid er gwaethaf ond oherwydd y gwaith ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw hynny'n cyfiawnhau'r ffaith bod rhaid iddynt weithio'n galetach. Os oes ar Gymru ac ar ei Llywodraeth angen cenhedlaeth o raddedigion yn y Gyfraith sydd â'r gallu i ddefnyddio eu sgiliau yn y ddwy iaith, y mae'n rhaid iddynt gymryd y ffaith o ddifrif na ddylai'r bobl ifanc hyn wynebu beichiau ychwanegol dianghenraid yn ystod eu hastudiaethau oherwydd yn unig eu bod hwy'n dewis derbyn eu haddysg yn eu mamiaith.

Y mae dau fater yma, ac y mae amryw bobl yn rhoi pwys gwahanol arnynt. I rai, y mae'n egwyddor bod myfyrwyr Cymraeg ym mhrifysgolion Cymru yn gallu astudio pynciau o'u dewis, gan gynnwys y Gyfraith, drwy gyfrwng y Gymraeg. Y mae hwn yn fater o'u hawliau fel siaradwyr iaith lleiafrifol yn y wlad lle cawsant eu geni a'u magu.² I rai eraill, y mae'r galw yn un cenedlaethol yn fwy nag un personol. Yn sgîl y Deddfau Iaith a Deddf Llywodraeth Cymru, y mae angen i broffesiynau'r Gyfraith yng Nghymru ateb gofynion cymdeithas ddwyieithog. Y mae ar Gymru angen cyfreithwyr cyhoeddus er mwyn ateb ei gofynion yn y Cynulliad Cenedlaethol ac mewn llywodraeth leol. Y mae ar Gymru angen hefyd gyfreithwyr preifat sydd yn gallu ateb gofynion y boblogaeth am wasanaethau cyfreithiol yn y Gymraeg neu yn y Saesneg yn ôl dewis y cleient. Y mae'n hollol ddiwerth darparu ar gyfer deddfwriaeth ddwyieithog a hawliau unigolion i dderbyn gwasanaethau cyfreithiol yn eu dewis iaith, os nad yw'r un peth yn cael ei wneud, nid yn unig ar gyfer recriwtio cyfreithwyr a all ddarparu'r fath wasanaethau ond hefyd, er mwyn hyrwyddo cyflawni'r fath amcanion gan bobl ifanc sydd yn barod, ac yn fodlon, i ymateb i'r her, ond sydd yn cael eu digalonni oherwydd y diffyg deunydd i'w chyflawni. Y mae hi'n amlwg mai ar yr academyddion y mae'r ddyletswydd i gynhyrchu'r deunydd fydd yn creu'r dulliau, ac nid oes diffyg parodrwydd ymhlith cymuned academaidd y gyfraith i'w wneud. Fodd bynnag, y mae rhwystrau ar y ffordd o gyflawni hyd yn oed hyn. Nid yw'r farchnad ar gyfer gwerslyfrau Cymraeg yn y gyfraith yn ddigon mawr i ganiatáu i gyhoeddwyr adennill y treuliau, heb sôn am wneud elw, o'r fath gynnyrch. Yn yr un modd, nid yw'r farchnad ar gyfer cylchgronau cyfreithiol Cymraeg yn debyg o fod yn fawr. Er bod deddfwriaeth y Cynulliad eisoes yn ddwyieithog ac efallai rhyw ddydd y bydd adroddiadau cyfreithiol yn ymwneud â

² Ar ddatblygiadau ynglŷn ag ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop, gweler Emyr Lewis, *Ieithoedd Lleiafrifol yn yr Ewrop Newydd – tipyn o boendod i rai sy'n credu mewn trefn?* (Darlith Flynnyddol Cymdeithas y Cyfreithwyr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru Casnewydd a'r Cylch, 2004).

materion Cymreig hefyd ar gael yn y ddwy iaith, y mae'r gost o gynhyrchu fersiynau Cymraeg o'r corff o statudau sydd mewn bod, heb ystyried cyfraith achos, yn fwy neu lai yn sicr o fod yn rhwystr i'w wneud yn fasnachol. Y mae creu'r defnydd i gynhyrchu a chynnal proffesiwn cyfreithiol dwyieithog yn galw am fuddsoddiad sylfaenol sylweddol oddi wrth y bobl gyda'r ewyllys wleidyddol a'r pwerau cyllidol i'w gyflawni. Y mae'r cymunedau academiaidd a phroffesiynol yn cydweithio ar y pryd i ddatblygu cynigiadau ynglŷn â'r deunydd sy'n angenrheidiol.

Ochr yn ochr â'r broblem o ddarparu deunydd ar gyfer dysgu ac addysgu'r gyfraith, y mae yna broblem arall, sydd yn effeithio bob adran o'r proffesiwn. Hon yw'r diffyg terminoleg cyfreithiol sydd yn deillio o ddiffyg statws swyddogol yr iaith Gymraeg yn ystod y pedair canrif a hanner diwethaf. Y mae *Geiriadur Newydd y Gyfraith* gan y Dr. Robyn Léwis wedi gwneud tipyn i oresgyn yr anawsterau,³ ond nid yw'r gyfraith yn aros yn sefydlog ac y mae termau newydd yn y Gyfraith yn cael eu bathu o hyd. Os yw'r Gymraeg i gadw ei statws fel iaith swyddogol ar gyfer dibenion cyfreithiol yng Nghymru, y mae'n angenrheidiol adolygu'r stoc o dermau'r Gyfraith yn y Gymraeg yn gyson. Er bod dyletswydd y Cynulliad i gynhyrchu ei holl ddeddfwriaeth yn ddwyieithog yn sicrhau y bydd y termau yn deillio o'r ffynhonnell honno bob amser yn ddwyieithog, ni fydd hyn yn wir am y cyfreithiau a gynhyrchir yn San Steffan, neu ym Mrwsel. Mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, bydd eisiau adolygu'r pentwr o ddeddfwriaeth newydd er mwyn sicrhau bod stoc termau'r Gyfraith yn y Gymraeg yn cadw i fyny gyda'r rhai yn Saesneg ac ieithoedd eraill. Y mae hyn yn waith i dîm o ymchwilyr, a -diolch byth - heddiw byddant yn cael eu helpu gan y peiriannau ymchwil effeithiol sydd ar gael y dyddiau yma o dechnoleg gyfrifiadurol, sydd â'r gallu i hyd yn oed adnabod termau a chymalau sydd eisoes wedi eu cyfieithu. Y mae hyn yn waith cyffrous i ymchwilyr gyda chefnidir a chymwysterau priodol, a buasai'r sgiliau a ddatblygwyd ganddynt, o ddefnydd mawr nid yn unig yng Nghymru ond hefyd mewn cymdeithasau eraill sydd yn wynebu'r un heriau. Bydd Cymru yn ei thro yn gallu dysgu tipyn gan y gwledydd a chymunedau hynny sydd eisoes wedi cofleidio her dwyieithrwydd neu hyd yn oed amlieithrwydd yn eu cyfreithiau.⁴

Trois at y cwestiwn o gynhyrchu terminoleg gyfreithiol sy'n fwy ac yn datblygu oherwydd ei gysylltiad â darparu llenyddiaeth gyfreithiol yn y Gymraeg er mwyn ateb gofynion myfyrwyr ac, wrth gwrs, y rhai sy'n ymarfer y gyfraith hefyd. Y mae, fodd bynnag, rwystr enfawr i'n cyfreithwyr academiaidd yn adrannau cyfraith ein prifysgolion rhag ymateb i'r her honno. Yn wahanol i'r rhwystrau eraill yr wyf wedi eu disgrifio, ni fuasai ei symud yn ddrud, ond buasai yn golygu defnyddio ymarfer cadarn o ewyllys wleidyddol gan Lywodraeth Cymru. Y mae llenyddiaeth gyfreithiol i ateb gofynion Cymru ar ôl datganoli yn fwy na thebyg o gael ei gynhyrchu gan y gymuned academiaidd. Yr wyf eisoes wedi cyfeirio at sut yr ymatebodd cyfreithwyr academiaidd i'r her o ddarparu llenyddiaeth ysgolheigaidd ynglŷn â Chyfraith Ewrop unwaith yr

³ Robyn Léwis, *Geiriadur Newydd y Gyfraith* (Llandysul, 2003).

⁴ Gweler hefyd Iwan R. Davies, *Her Cymru'r Gyfraith* (Darlith Flynnyddol Cymdeithas y Cyfreithwyr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru Dinbych, 2001).

ymunodd Prydain â'r Farchnad Gyffredin, ond hefyd sut, ym maes y gyfraith gyhoeddus heddiw, nad yw'r her o ymateb i ddatganoli yn cynhyrchu ateb cyffelyb o gwbl. Gyda'r eithriad o waith pwysig iawn yr Athro Richard Rawlings, *Delineating Wales*,⁵ nid yw datganoli wedi ysbrydoli llif o ysgolheictod ysgrifenedig, a rhaid cofio mai o safbwynt cyfreithiwr sy'n gweithio yn Llundain y mae'r Athro Rawlings yn ysgrifennu. Paham y mae cyn lleied wedi ei ysgrifennu am ddatganoli gan gyfreithwyr academaidd yng Nghymru? Nid yw'r broblem ieithyddol y daethom ar ei thraws ynglŷn â chyfreithiau gwledydd eraill yn esbonio'r sefyllfa y tro yma, oherwydd y mae'r cyfreithiau a gynhyrchwyd gan y Cynulliad ar gael i'w hastudio a'u barnu yn y Saesneg yn ogystal ag yn y Gymraeg.

Ni raid ymholi yn hir iawn mewn unrhyw adran cyfraith yn un o brifysgolion Cymru cyn cael yr ateb - yr Ymarfer Asesu Ymchwil, neu'r RAE fel y mae'n cael ei adnabod yn gyffredinol. Y mae hwn yn ymarfer rheolaidd, sydd yn cael ei gynnal unwaith bob pump, chwe neu saith mlynedd, gyda'r bwriad o fesur ansawdd yr ymchwil a gynhyrchwyd gan adrannau prifysgolion ym mhob pwnc. Derbynia'r adrannau, neu yn gywirach yn ôl *jargon* yr RAE, 'canolfannau cost', radd, sydd yn y gorffennol wedi bod o 1, y lefel isaf un, hyd at 5, gyda'r posibilrwydd o radd 5* am y lefelau uchaf o lwyddiant. Cynhelir yr asesiadau gan baneli pwnc, sy'n cynnwys academyddion yn y pwnc dan sylw, gyda'r gorchymyn i ddarllen - neu mewn manau arbenigol iawn cael aseswyr i ddarllen ar eu cyfer - bedwar cyhoeddiad gorau pob aelod o staff a gyflwynwyd ar gyfer asesu gan bob adran yn y wlad. Dylai'r safon o asesu a'r radd a ddyfarnwyd i bob adran adlewyrchu canran y gwaith a gynhyrchwyd sydd o safon 'rhyngwladol' neu 'gwladol'. Os oedd dros hanner y gwaith a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd o safon 'rhyngwladol', dyfernir 5* i'r adran; os oedd canran sylweddol o'r gwaith, ond llai na hanner, o safon 'rhyngwladol', dyfernir 5, tra bo adran gydag ychydig waith o ansawdd 'rhyngwladol' ond lle'r oedd yr ansawdd pennaf yn 'wladol', yn cael 4. O hynny ymlaen, fel y mae'r canran o waith o ansawdd 'gwladol' yn lleihau, felly y mae'r dyfarniad hefyd yn disgyn i lawr y raddfa. Canlyniad cyllidol sydd i dderbyn gradd uchel neu isel. Y mae'r brifysgol yn derbyn arian ymchwil ar gyfer adrannau sydd â graddau uchel, ond nid ar gyfer adrannau sydd ar hyn o bryd gyda llai na gradd 4.

Y mae tipyn felly yn dibynnu ar fod gwaith ymchwil yn cyrraedd y safon rhyngwladol - ond beth mae hynny yn ei olygu i bwnc fel y Gyfraith. Pan mae'n weddol glir beth y mae'n ei olygu yn y rhan fwyaf o bynciau gwyddonol - y mae'n debyg bod canlyniadau hollti'r atom neu ddarganfod penisilin yr un mor bwysig dramor ag ym Mhrydain - y mae ystyr y term yn gorfod bod yn fwy goddrychol yn y Dyniaethau. Ym mha ystyr y gall traethawd ar gyfraith contract neu gyfraith trosedd yng Nghymru a Lloegr gael ei ystyried o safon 'rhyngwladol'? Y mae'r canlyniad yn un efallai y buasai un o farnwyr mwyaf disglair Cymru erioed wedi ei ddisgrifio fel diffyniad Humpty-Dumpty o'r term - y mae 'rhyngwladol' yn golygu beth bynnaig y mae'r panel yn penderfynu y mae'n ei olygu. Mewn geiriau eraill, nid yr arwyddocâd sydd gan y canfyddiadau ymchwil gwirioneddol yn rhyngwladol sy'n cyfrif, ond beth y mae'r panel yn credu yw

⁵ Richard Rawlings, *Delineating Wales* (Caerdydd, 2003).

statws y gwaith o fewn y gymuned academiaidd Brydeinig. Un canlyniad od iawn o hyn yw'r gwadu swta bod gwaith sydd yn delio â chyd-destun rhyngwladol neu sydd yn cyfeirio at faterion rhyngwladol, gan gynnwys gwaith sydd yn cael ei gyhoeddi mewn gwledydd eraill, ynddo'i hun, yn 'rhyngwladol'; yn wir, y mae bron rhagdybiaeth yn erbyn trin y fath waith fel un o safon 'rhyngwladol' sydd yn newyddion drwg iawn i gyfreithwyr academiaidd sydd yn gweithio mewn meysydd gwir ryngwladol fel Cyfraith Ryngwladol Gyhoeddus, Cyfraith yr Amgylchedd neu hyd yn oed masnach forwrol, lle gall ystyried eu hymchwil yn aml iawn fod o arwyddocâd rhyngwladol yn wrthrychol. Y modd gorau o sylweddoli ffolineb yr agwedd yma, efallai, yw ei symud i gyswllt arall. Yn ôl dulliau'r RAE, buasai'r cwestiwn o safon ryngwladol tîm rygbi neu bêl-droed yn dibynnu nid ar ba nifer o chwaraewyr sydd mewn gwirionedd yn cael eu dewis i chwarae mewn gemau rhyngwladol ond ar farn grŵp dethol o chwaraewyr o glybiau eraill ynglŷn â'u rhinweddau. Ond oni bai am y canlyniadau cyllidol, buasai'r RAE ers tro wedi cael ei ystyried fel rhyw fath o *Fantasy Football League*.

Fodd bynnag, y mae canlyniadau cyllidol ac felly mae'n rhaid cymryd yr RAE o ddifrif. Y canlyniad anffodus a niweidiol yw bod yr RAE bellach wedi troi i fod yn nod y mae ymchwil wedi ei anelu ato yn lle bod yn asesiad cyfnodol o ymchwil. Y mae academyddion y dyddiau yma yn ymchwilio a chyhoeddi er mwyn i'w hadrannau wneud yn dda yn yr RAE. Y mae dyrchafiadau a diogelwch swydd yn dibynnu ar gynhyrchu cyhoeddiadau sydd yn debyg o ennill ffafwr yr RAE. Y mae pobl sydd yn methu ei wneud yn cael eu trin fel pe baent yn methu yn eu cyfrifoldebau, er gwaethaf eu rhinweddau fel athrawon. Y mae contractau addysgu yn unig yn cael eu creu ar gyfer y bobl sydd yn cael eu disgrifio braidd yn ddichellgar yn anactif mewn ymchwil, ond y gwir yw bod eu hymchwil yn cael ei ystyried gan eraill yn ddi-fudd yn ôl y safon y mae'r sefydliad ei angen. Y mae prosiectau o ymchwil hirdymor felly yn llai atyniadol na gwaith nac ymdrechion byrdymor a fydd yn gallu cyflawni pedwar cyhoeddiad ar gyfer yr asesiadau nesaf. Y mae ymchwilyr nad ydynt yn cynhyrchu gwaith o safon 'rhyngwladol' yr un mor ddigroeso â'r rheini nad ydynt yn cynhyrchu dim o gwbl. Y mae'r modd y mae rhai academyddion wedi gweld eu gyfaeodd yn cael eu haberthu ar allor yr RAE gan bobl a fu'n gydweithwyr iddynt wedi bod yn un o nodweddion mwyaf atgas bywyd ein prifysgolion yn ystod y degawd a hanner diwethaf.

Nodwch, os gwelwch yn dda, bod yr ymarfer yn ymwneud ag ymchwil. Y mae hyn, hyd yn oed yn y Dyniaethau, yn cael ei ystyried yn fwyfwy fel rhywbeth ar wahân i ysgolheictod. Nid yw ysgrifennu gwerslyfr ysgolheigaidd ar gyfer eich myfyrwyr yn cael ei ystyried fel ymchwil ac mae'n bosibl na fydd yn dderbiniol gan yr RAE. Unwaith eto, y mae syniadau sydd yn deillio o'r gwyddorau i'w canfod, ond sut yn y Dyniaethau, sut yn y Gyfraith, y mae'n bosibl gwahaniaethu mor glir rhwng ysgolheictod ac ymchwil. Y mae'r cyfreithiwr academiaidd sydd yn myfyrio ar benderfyniadau'r llysoedd ac yn ceisio eu hesbonio, yn ôl traddodiad Ewropeaidd sydd yn estyn yn ôl am o leiaf fileniwm ac efallai i'r byd hynafol, yn agored i'r perygl o gael ei ystyried fel 'ysgolhaig yn unig', a'i waith yn methu cymhwyso ar gyfer yr acolâd terminolegol o fod yn 'ymchwil'.

Y rheswm pam yr wyf wedi pwysleisio potensial yr RAE i wneud niwed yw ei bod yn bosibl i'r RAE niweidio, a gellir dadlau ei fod yn niweidio, dysg y gyfraith yng

Nghymru. Y mae hyn yn wir am nifer o resymau cysylltiedig. Yn ôl beth yr wyf newydd ei ddweud ynglŷn ag ymchwil ac ysgolheictod, byddwch wedi casglu, rwy'n siŵr, bod cyfreithiwr academiaidd sydd yn treulio ei amser neu ei hamser yn ysgrifennu gwerslyfr ar gyfraith Cymru ar ôl datganoli yn agored i'r perygl o'r gwaith yn cael ei ystyried yn ysgolheictod ac nid ymchwil. Fodd bynnag, os ydych chi myfyrwyr yn ein hysgolion cyfraith yn mynd i gael eu paratoi yn iawn ar gyfer yr heriau o ymarfer y gyfraith yng Nghymru yn y ganrif hon, y mae gwir angen y fath lyfrau arnynt. Y mae'r RAE yn rhwystr i ddarparu deunydd sydd yn angenrheidiol ar gyfer ein myfyrwyr. Gellir dadlau, y buasai'r fath lyfrau o fudd enfawr hefyd i gyfreithwyr proffesiynol sydd yn ymarfer yng Nghymru, ond, ym mynd yr RAE, y mae cynhyrchu llyfrau ar gyfer y rhai sy'n ymarfer y gyfraith yn waeth hyd yn oed nag ysgolheictod. Y mae'n cyfateb yn nhermau'r RAE i'r pechu yn erbyn yr Ysbyrd Glân.

Os nad yw ysgrifennu gwerslyfrau ar gyfer cyrsiau israddedigion yn ddewis sydd yn agored i gyfreithwyr academiaidd oblegid eu dyletswyddau mewn perthynas â'r RAE, y mae'n dilyn, wrth gwrs, o beth yr ydych chi eisoes wedi ei ddweud, na fyddai ysgrifennu gwerslyfr yn y Gymraeg ar ryw bwnc cyfreithiol, oedd yn darparu yn yr iaith Gymraeg yn unig wybodaeth oedd eisoes ar gael yn Saesneg, yn rhoi unrhyw obaith o ennill hygredded i'w awdur heb sôn am ddiogelu ei swydd neu ennill dyrchafiad. Eto, ni all fod unrhyw athro'r gyfraith yng Nghymru, sydd yn awyddus i weld cynnydd yn y ddarpariaeth ddwyieithog, nad yw yn ymwybodol o'r ffaith bod cynhyrchu'r fath lyfrau yn hanfodol os ydych chi mynd i lwyddo i gael cenedlaeth o gyfreithwyr sydd yn hollol fedrus i ymarfer eu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Eto, ar yr union adeg pan mae'r eisiau yma fwyaf, y mae'r cyswllt Prydeinig lle y maent yn gweithio a lle y mae eu cyhoeddiadau, a hwy eu hunain yn cael eu barnu, yn tueddu yn erbyn eu hannog i wneud unrhyw beth er mwyn ateb yr angen. Os yw gwerslyfrau Cymraeg i'r nifer cynyddol o bobl ifanc sydd eisiau dysgu'r gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i ymddangos, y mae eisiau gwneud rhywbeth ynglŷn â sut y mae cynhyrchu'r fath waith yn cael ei ystyried, ei werthfawrogi a'i wobrwyo o fewn y gymuned academiaidd.

Y mae'r problemau a ddisgrifiwyd hyd yn hyn yn ymwneud ag ysgrifennu gwerslyfrau naill ai yn y Gymraeg neu yn Saesneg, ond y mae'n amlwg ei bod yn agored i gyfreithwyr academiaidd Cymraeg osgoi'r anawsterau hyn trwy ymchwilio ar ryw agwedd Gymreig ymhlith datblygiadau cyfreithiol yn sgîl datganoli. Y mae digon o gyfle, yn arbennig ond nid yn unig, ym maes cyfraith gyhoeddus i wneud gwaith gwreiddiol ynglŷn ag effaith pwerau'r Cynulliad i ddeddfu ar gymdeithas Cymru. Fodd bynnag, hyd yn oed yma, y mae'r RAE yn creu rhwystr. Er mwyn i gynnyrch yr ymchwil fod o werth yng ngolwg yr RAE, y mae rhaid iddo gyrraedd safon wladol neu ryngwladol yn ôl dehongliad yr RAE o ystyr y termau hynny. Yma, yn rhyfedd iawn, y mae gwir ystyr y geiriau *rhyngwladol* a *gwladol* yn ail-ymddangos. Y mae'r cwestiwn yn codi a fedr gwaith sydd yn cyfeirio at Gymru yn unig fyth allu cael ei ystyried yn un rhyngwladol. Llai na deunaw mis yn ôl, comisiynodd un o ysgolion cyfraith Cymru ddau athro blaenllaw i arolygu ac ystyried cryfderau a gwendidau'r ymchwil a gynhyrchwyd gan ei staff eisoes yn ystod cyfnod cyfredol yr RAE. Yn eu hadroddiad, a oedd yn eglur i fod i osod agenda ar gyfer gwella ansawdd yr ymchwil a oedd yn cael ei gynhyrchu gan yr adran, cyfeiriodd

yr arbenigwyr allanol at rinweddau gwaith a oedd yn cyfeirio at anghenion arbennig Cymru yn sgîl datganoli. Eu casgliad oedd nad oedd yn bosibl i ysgolion cyfraith Cymru ddadlau beth a elwid yn 'egwyddor Belfast', hynny yw, nad oes dadl i'w rhoi yng Nghymru sy'n debyg i hynny a roddwyd gan gyfreithwyr academiaidd yng Ngogledd Iwerddon i'r perwyl fod yna alw eithriadol arnynt i ateb gofynion myfyrwyr y gyfraith a chyfreithwyr mewn cysylltiad ag awdurdodaeth ar wahân Gogledd Iwerddon. Yn y bôn, y mae hyn yn gwadu i Gymru a'i chyfreithwyr unrhyw hawl i'w gweld fel awdurdodaeth ar wahân yn sgîl datganoli. Y mae'n parhau hen hen ragfarn i'r perwyl nad yw'n bosibl gweld Cymru fel awdurdodaeth ar wahân oherwydd naill ai na fu ganddi erioed senedd - er bod Cynulliad ganddi bellach - neu oherwydd nad oes llysoedd arbennig gyda Chymru yn yr un modd â'r Alban a Gogledd Iwerddon - er bod gan Gymru ar un adeg y Sesiwn Fawr. Defnyddiwyd y ddadl wrth gwrs yn y gorffennol er mwyn ceisio cyfiawnhau gwrthod i Gymru sefydliadau fel Ysgrifennydd Gwladol. Yma, y mae'n cael ei defnyddio fel rhwystr i ddatblygu ysgolheictod gwahanol yn y gyfraith ar gyfer Cymru ar y sail nad oes yna gyfraith wahanol Gymreig mewn bod. Y mae hynny, fe wyddom, yn anghywir. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod y syniad yn anghywir yn lleihau'r byggythiad. Y mae un o'r ddau athro o Loegr a wnaeth yr asesiad hwnnw bellach wedi ei phenodi fel cadeirydd panel yr RAE sydd yn cynnwys y Gyfraith tu fewn i'w chylch gwaith. Diolch byth, bydd cadeirydd is-banel y gyfraith ei hun yn athro sydd wedi bod yn dysgu mewn ysgol gyfraith yng Nghymru am gyfnod o ugain mlynedd, ac felly gallwn obeithio y bydd ei dylanwad hi yn gwrthbwysio barnau penodol cadeirydd y prif banel wrth gydnabod gwerth gweithgareddau ynglŷn ag anghenion cyfreithiol arbennig Cymru gyfoes. Cyn gadael y mater hwn, dylid nodi un peth arall. Y mae gan yr Alban ei senedd ei hun, yn hanesyddol ac yn awr, ac y mae wedi cadw ei chyfundrefn llysoedd barn ei hun hefyd. Nid oes amheuaeth felly bod gan yr Alban ei chyfundrefn gyfreithiol ei hun, ar wahân i honno yng Nghymru a Lloegr. Yn y ddwy RAE ddiwethaf, cafodd natur arwahanol cyfraith yr Alban ei chydabod drwy ganiatáu i ymchwil ar gyfraith yr Alban gael ei hasesu gan is-banel arbennig o banel y gyfraith. Ni fydd hyn yn parhau, dylid nodi, ar gyfer yr ymarfer nesaf. Dim ond un panel fydd, a bydd yn rhaid i'r Alban ymdopi gyda chynrychiolwyr. Beth yn y byd y mae datganoli yn ei olygu i'r bobl sydd yn gyfrifol am yr ymarferion hyn?

Y mae'r RAE, yn fy marn i, yn rhwystr difrifol i ddatblygu, yn ein hysgolion cyfraith yng Nghymru, waith ysgolheigaidd o bwys, gan gynnwys ymchwil, ynglŷn â'r ffenomenon cynyddol o Gymru'r Gyfraith. Bydd cyfreithwyr academiaidd, sydd eisiau bod yn sicr y bydd eu gwaith yn cyfrif ar gyfer yr RAE nesaf, yn osgoi ymchwil i faterion hollol Gymreig. Y mae'r ffaith bod hyn yn digwydd - ac nid oes amheuaeth ei fod yn digwydd - yn y degawd sydd yn dilyn llwyddiant datganoli yn bygwth colli i Gymru gyfan gyfle na fydd byth efallai yn dychwelyd. Y mae gan gymuned academiaidd y gyfraith y potensial i wneud cyfraniad pwysig i dderbyniad beirniadaeth cyfreithiau Cymru fel y maent yn cynyddu. Yn sgîl mynediad Prydain i'r Gymuned Ewropeaidd yn 1972, y mae newid amlwg wedi digwydd yn y modd y mae sylwadau academiaidd ar y gyfraith yn cael eu gwerthfawrogi nid yn unig gan y proffesiwn cyfreithiol ond gan y barnwyr hefyd. Yn y gorffennol, dim ond gwaith ysgrifenyddys disgrair ymadawedig oedd

yn cael eu dyfynnu gerbron y llysoedd, ond heddiw nid yw'n anghyffredin o gwbl clywed gwaith ysgrifenydd sydd yn fyw yn cael eu dyfynnu a'u trafod fel rhai awdurdodol perswadiol gerbron llysoedd uchaf y wlad. Gallwn feddwl yn enwedig sut yr oedd Arglwyddi'r Gyfraith yn trafod yn rheolaidd ysgrifeniadau'r Athro Peter Birks, a fu farw llynedd er mawr dristwch i'r holl gymuned gyfreithiol, wrth drafod y gyfraith ynglŷn ag adferiad. Yn rhannol, y mae hyn yn ganlyniad cael barnwyr heddiw a astudiodd y gyfraith fel pwnc yn y Brifysgol ac y ffurfiwyd eu hymwybyddiaeth gyfreithiol yn rhannol gan ysgrifeniadau cyfreithwyr academiaidd mewn modd na chafodd eu rhagflaenydd eu dysgu genhedlaeth ynghynt. Hefyd, yn rhannol, mae'n rhan o'r ffenomenon o 'Ewropeiddiad', drwy ba un y mae'r traddodiad hir yn y gyfraith sifil o barchu ysgrifeniadau cyfreithwyr academiaidd gan groesawu eu *hathrawiaeth* fel dylanwad ar ddehongli ac ar gymhwysu'r gyfraith. Y mae gan gyfreithwyr academiaidd Cymru ar hyn o bryd gyfle na fydd efallai byth yn dychwelyd i gyfrannu at lunio diwylliant cyfreithiol Cymru gyfoes yn ei ddechreuadau, trwy eu hymchwyl, eu hysgolheictod a'u hysgrifennu. Bydd yn drasiedi, nid yn unig iddynt hwy, eu myfyrwyr a dysg y gyfraith, ond hefyd i'r genedl, os bydd y cyfle hwn yn cael ei gollu fel canlyniad i ofynion ymarfer asesu a gynlluniwyd heb ystyried o gwbl anghenion arbennig dysg y gyfraith yng Nghymru gyfoes. Nid oes angen i hyn ddigwydd. Dylai'r Cynulliad naill ai geisio cael, neu ddefnyddio, pwerau er mwyn addasu'r modd y mae'r RAE yn gweithredu yng Nghymru er mwyn sicrhau bod pwysigrwydd astudiaethau Cymreig ym mhreifysgolion Cymru yn cael eu hystyried, gan gynnwys astudiaethau cyfreithiol Cymreig yn ysgolion cyfraith Cymru. Dylai hyn gynnwys cydnabyddiaeth deg o waith yr unigolion sydd wrthi yn llafurio er mwyn goresgyn y diffyg deunydd Cymraeg ar gyfer dysgu'r Gyfraith trwy gyfrwng yr iaith, y deunydd sydd ei angen er mwyn astudio cyfraith Cymru naill ai trwy'r Saesneg neu'r Gymraeg, a'r gweithgareddau ysgolheigaidd sydd yn canolbwyntio ar y gyfraith sydd yn deillio o'r Cynulliad Cenedlaethol. Dechreuais trwy feddwl na ddylai astudio Cymru a materion Cymreig gael eu cosbi yng Nghymru am fethu bod yn ddigon 'rhyngwladol'. Fodd bynnag, nid wyf yn credu hyn bellach. Oddi mewn i Gymru, er mwyn cytraedd y graddau uchaf oll mewn asesiadau o bob math, dylai fod yn angenrheidiol i gyfeirio at ddimensiwn Cymreig y pwnc, lle mae un yn bodoli. A ydyw'n bosibl dychmygu ysgol gyfraith yn Lloegr - gydag eithriad sefydliadau fel SOAS yn Llundain - yn llwyddo i gytraedd y radd uchaf oll os nad oedd yr un aelod o'i staff wedi ysgrifennu gair am gyfraith Lloegr. Pur annhebyg. Ni ddylai ysgolion cyfraith Cymru chwaith gael eu gwobrwyo gyda'r graddau uchaf oll heb ryw elfen o waith ar gyd-destun cyfreithiol Cymru.

Y mae gan Gymru draddodiad o gynhyrchu cyfreithwyr disglair, ac y mae nifer ohonynt wedi cyfrannu i ddysg y gyfraith yn eu cyfnod. Cyfrannodd rhai, fel Ioan o Gymru ym mlyneddodde cynnar y drydedd ganrif ar ddeg, at ddatblygu'r gyfraith ganon yn y Gorllewin; yr oedd rhai eraill, fel William Aubrey, David Lewis, Thomas Yale a Leoline Jenkins yn gyfreithwyr sifil disglair yn yr unfed ar ail ganrif ar bymtheg. Nid oes prinder cyfreithwyr enwog sydd wedi cyfrannu at ddatblygu cyfraith gwlad hwnt ac yma. Ar drothwy'r unfed ganrif ar hugain, y mae cyfreithwyr Cymru yn wynebu'r her o ddechrau pennod newydd yn hanes dysg y gyfraith yng Nghymru, pennod newydd a

chyffrous, fel y mae'r genedl yn ail-ddarganfod drosti ei hun hunaniaeth gyfreithiol arwahanol. Y mae yna gyfle enfawr o'n blaen, ond hefyd bob amser yr her o rwystrau difrifol ar ein ffordd. Nid wyf yn amau na fydd Cymru'r Gyfraith yn ymateb i'r her, ac yn goresgyn, y rhwystrau, yn rhannol o oherwydd esiampl cyfreithwyr Cymru a fu, a hefyd yn rhannol oherwydd brwdfrydedd a phenderfyniad y genhedlaeth o gyfreithwyr ifanc a myfyrwyr ifanc y gyfraith sydd yn codi ledled Cymru. Ynghyd, dylai'r elfennau hyn ein hysbrydoli bob un i weithio, yn wir i ymdrechu, am ddyfodol cyfreithiol gwell i Gymru a'i phobl i gyd.